# CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR

## COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR NOS LUN, 11.10.10 AR DERFYN Y CYFARFOD BLYNYDDOL YNG NGHANOLFAN WAUNFAWR, WAUNFAWR

**Presennol –** Cynghorwyr
Gwilym O Williams (Cadeirydd)
Edgar Owen
Pat Parry
Cadi Jones
Lynne Brown
Clive James
Bryn Jones
Eurig Wyn
Shoned Griffith (Clerc)

**1 Croeso'r Cadeirydd -** Croesawodd y Cadeirydd pawb oedd yn bresennol.

**2 Ymddiheuriadau –** Y Cyng TP, Cyng AJones, Cyng TParry

**3 Datganiadau aelodau yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.**

3.1. Ni ddatganwyd gwybodaeth ychwanegol i'r uchod, nag a restrir yn barod o fewn cofrestr 'Datganiad Cyffredinol o Fuddiannau Personol Aelodau'.

**4 Derbyn Cofnodion 01.09.10**

Y Cyng CJ yn cynnig fod y cofnodion yn gywir, y Cyng BJ yn eilio.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion cyfarfod 01.09.10**

Cyflwynwyd gopi o Orchymyn 1984 y fynwent gan y Swyddfa Gymreig i'r Clerc gan y Cyng CJames i'w gadw
er gwybodaeth.

Coed wrth y Gofeb – y Cyng GOW wedi siarad gyda'r Swyddog Cadwraeth Coed, Pwllheli – Tony Vowell
angen arbenigwr coed cost o oddeutu £100. Gofynnwyd y cwestiwn os mae'r Cyngor Cymuned sydd berchen y tir? GOW i holi hen aelodau'r Cyngor Cymuned am berchnogaeth y tir, ac i gysylltu a Tony Vowell i ofyn am restr o ymgymerwyr.

**6 Adroddiadau**

**a. Lloches Bws**
Dal angen ei beintio. Cyng GOW wedi cysylltu a Meirion Williams, Cyngor Gwynedd yn dilyn y llythyr diweddar, gwaith wedi ei wneud camddealltwriaeth.

**b. Pwyllgor y Fynwent ac Eiddo**

Angen cyfarfod yn fuan ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor nesaf. Mae lle yn brin cysidro defnyddio y ¼ olaf ar gyfer eirch, a darn gwaelod y ¼ yma ar gyfer llwch yn unig.

**c. Llwybrau Cyhoeddus**

Rhwydwaith Gwyrfai yn edrych ar sefydlu safle we mewn cydweithrediad a BT ar hyn o bryd, ac hefyd
Taflen yn fuan.

**ch. Gerddi Bach**

Cyng EW wedi casglu canlyniadau'r holiaduron, a dosbarthwyd gopi o'r canlyniadau i bob aelod o'r
cyfarfod. Cynnigwyd gan y Cyng BJ ac eiliwyd gan y Cyng EW y dyali'r Cynghorwyr fynd a'r
wybodaeth adref er mwyn pwyso a mesur y canlyniadau a'i drafod ymhellach yn ein cyfarfod nesaf.
Cynnigwyd gan y Cyng CJames ein bod yn rhoi Gerddi Bach fel eitem sefydlog ar yr agenda ar gyfer y
cyfarfod nesaf.

**7 Materion Cynllunio**

**a. Ceisiadau newydd**

| | Dyddiad Cofrestrwyd | Bwriad | Lleoliad | Rhif Cais | Statws y Cais |
|---|---|---|---|---|---|
| | 08/10/10 | Newid defnydd tir o ddefnydd amaethyddol i rhandir ynghyd a lleoli sied ardd | Bryn Eithin Waunfawr | C10A/0515/26/LL | Dim gwrthwynebiad |
| | 28/09/10 | Adeiladu bynglo dormer (apêl) | Fferm Bod Hyfryd, Waunfawr | C10A/0050/26/Am | Gwrthod ar sail dim newid i'r cais gwreiddiol. Bu i'r Cyng GOW adael yr ystafell oherwydd diddordeb yn y cais. Angen ymateb i'r Cynulliad erbyn y 1/11/10. |

**b. Ceisiadau wedi eu cymeradwyo gan Gyngor Gwynedd**

| Dyddiad Cofrestrwyd | Bwriad | Lleoliad | Rhif Cais | Statws y Cais |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

**8 Gohebiaeth i'w drafod**

Tony Brown, 2 Bryn Golau, - digwyddiad yn y pentref 2/3 Hydref 2010 *
Cyngor Gwynedd – Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd – canllawiau Cynllunio Atodol Drafft – twrisiaeth

Alun Ffred Jones – copi o lythyr i'r Cyng GOW yn dilyn cyfarfod yng Nghaeathro yn ddiweddar

Cyngor Cymuned Llandwrog – Ward Alaw, Ysbytu Gwynedd

Gwynedd ar y Cyd – Gwahoddiad i Gyfarfod o Fforwm Gwynedd

DVS – Priswyr dosbarth

Cyngor Gwynedd – Toiledau Cyhoeddus Waunfawr

Awdurdod Heddlul Gogledd Cymru – Fforymau Cymunedol

Unllais – Prif Weithredwr newydd Mr Lyn Cadwallader

Dwr Cymru- Cwblhau gwaith dwr Cwellyn

Cynllun Efe – Gymanfa Ymgynghorol Cynllun Efe

Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru – Arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer Sir Gwynedd

*** Cafwyd trafodaeth eang ar y mater o'r digwyddiad yn y pentref ar yr 2il/3ydd o Hydref a'r difrod a wnaethpwyd. Mynegwyd os oes unrhyw aelod o'r Cyngor Cymuned yn ymwybodol o unrhyw blentyn angen eu cyfeirio at y Gwasanaethau Cymdeithasol i hysbysu'r Cadeirydd.**

## 9. Mantolen 2010/11 (6 mis)

Cynnigwyd fod y mantolen 6 mis yn gywir gan y Cyng CJames ac eilwyd gan y Cyng EO.

## 10. Materion Ariannol

**9.1 Arian wedi ei dalu allan**

| | |
|---|---|
| G R Services | £400.00 |
| J D Roberts | £55.50 |
| Cyflog Clerc Medi | £260.00 |

**9.2 Arian a dderbyniwyd**

| | |
|---|---|
| Ffi Claddu | £95.00 |
| Ffi Claddu | £95.00 |

**9.3 Anfonebau i'w talu**

| | |
|---|---|
| Cyflog Clerc Hydref | £260.00 |
| B Jones | £36.00 |
| B Owens | £36.00 |
| H Jones | £36.00 |
| G R Services | £330.00 |
| Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro | £607.50 |
| Capel Caeathro | £20.00 |
| Ganolfan Waunfawr | £80.00 |
| Rhodd y Cadeirydd | £25.00 |
| British Legion | £30.00 |
| Cyflog Clerc Tachwedd | £260.00 |

## 11. Grantiau/Rhoddion

| | |
|---|---|
| Eco'r Wyddfa | £150.00 |
| Apel Codi arian Urdd 2012 | £250.00 |
| Clwb Bowlio | £200.00 |
| Cynllun Efe | £100.00 |
| Eisteddfod Genedlaethol | £50.00 |
| Eglwys y Waun | £100.00 |
| Clwb Peldroed Waunfawr | £250.00 |

## 10 Dyddiad a Lleoliad y Cyfarfod Nesaf

Nos Fercher, 24ain o Dachwedd, 2010 am **7.15** yr hwyr yng Nghanolfan Waunfawr.

Cyng PP a CJames yn ymddiheuro ymlaen llaw.

## 11 Materion Aelodau.

**Y Cyng CJames** –Prydles rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Cymuned Waunfawr ar cae chwarae Caeathro, angen i'r clerc checio os oes 'public liability insurance' ar y cae gan y Cyngor Cymuned.

**Y Cyng CJones** – Falch o weld arwydd dim loriau drwy'r pentref ger y gylchfan yng Nghaeathro.

**Y Cyng PP** - Dim

**Y Cyng EO –** wedi derbyn cwyn gan aelod o'r pentref fod plant yr ysgol yn siarad Saesneg ar yr iard. Angen ysgrifennu at yr ysgol i ofyn beth yw polisi yr ysgol a pa gamau sy'n cael eu cymryd i annog defnydd o Gymraeg ar yr iard.

**Y Cyng BJ** – Llwybr cerdded rhwng Lon hir a Gorwel y Mor – angen giât newydd.

**Y Cyng EW** –Llys y Waun, angen cadarnhau a'r aelodau fod dim mwy o dai na 17 yn cael ei adeiladu ar y safle.

**Y Cyng LB** –Bws – rhedeg yn hwyr angen cysylltu a Cyngor Gwynedd.

**Y Cyng GOW** – Coed Pant Gwyn – yn nwylo Cyngor Gwynedd. Draen newydd yn Bro Waun, - datrys problem llifogydd.

Nodwyd fod Tŷ'n Cae Newydd wedi gosod arwydd yn cael ger Groeslon Isaf yn hysbysebu'r siop, fe all hyn achosi problem traffic ar hyd ffordd Ael y Bryn.